

MAE'R ENW William Spurrell yn gyfarwydd i holl ddarlennwyr *Y Casglwr*, a byddai'r mwyafrif, rwy'n siŵr, yn cysylltu ei enw â llunio a chyhoeddi geiriaduron.

Argraffwyd a chyhoeddwyd ei eiriadur cyntaf, *A Dictionary of the Welsh language with English synonyms and explanations* mewn deuddeg o rannau chwecheiniog. Ymddangosodd y rhifyn cyntaf ym mis Awst 1847, a chwblhawyd y gwaith yn brydlon erbyn Gorffennaf 1848. Cyhoeddwyd ail argraffiad o'r gwaith yn 1859, trydydd argraffiad yn 1866, pedwerydd yn 1889, a phumed yn 1904.

Cyhoeddwyd cymar Saesneg-Cymraeg i'r gyfrol yn 1850 o dan y teitl *Geiriadur cynaniaethol Saesonaeg a Chymraeg*, a dilynwyd hwn gan argraffiadau newydd yn 1861, 1872, 1903, 1905 a 1909. Ni welais fanylion gwerthiant y geiriaduron hyn.

Yn dilyn marwolaeth William Spurrell yn 1889, etifeddwyd y busnes gan ei fab Walter. Er mwyn sicrhau y byddai geiriaduron ei dad yn parhau i gynnal gwerthiant uchel mewn marchnad gystadleuol, penderfynwyd gofyn i John Bodvan Anwyl ymgymryd â'r gwaith o baratoi argraffiadau diwygiedig o'r ddau eiriadur — argraffiadau a fyddai'n talu sylw i'r newidiadau sylweddol a fabwysiadwyd yn orgraff yr iaith Gymraeg yn dilyn gwaith Syr John Rhys a'r Athro John Morris-Jones yn y maes hwnnw.


Ffrwyth golygu gofalus Bodfan oedd cyfanswm o 20 o argraffiadau (neu ail brintiaid) newydd o eiriaduron Spurrell a gyhoeddwyd rhwng 1914 a 1937. Bu galw mawr a chyson am y geiriaduron hyn, ac amcangyfrifir bod y gwerthiant yn ystod y cyfnod dan sylw dros 45,000 o gopïau.

Mae'r llythyru cyson a fu rhwng Walter Spurrell a John Bodvan Anwyl, gohebiaeth a ddiogelir yng nghanol Bodfan yn y Llyfrgell Genedlaethol, yn datgelu gwerthiant rhai o'r argraffiadau hyn:

1. *Spurrell's Welsh-English Dictionary (Geiriadur Cymraeg a Saesneg)*; edited by J. Bodvan Anwyl. 6ed arg, 1914 (2000); 7fed arg, 1915 (3000); 8fed arg, 1918; 9fed arg, 1920 (2000); 9fed arg, ail brintiad, 1922 (2000); 10fed arg, 1925 (3000); 11eg arg, 1930 (2000); 12fed arg, 1934; 13eg arg, 1937. Gwna hyn gyfanswm o tua 20,000 o gopïau.
2. *Spurrell's English-Welsh Dictionary (Geiriadur Saesneg a Chymraeg)*; edited by J. Bodvan Anwyl. 7fed arg, 1916 (3000); 7fed arg, ail brintiad, 1921 (1000); 7fed arg, trydydd printiad, 1922 (1000); 8fed arg, 1922; 9fed arg, 1926; 10fed arg, 1932; 11eg arg, 1937.

## Geiriaduron Spurrell-a'u anhygoel werthiant

Arolwg RICHARD E. HUWS



William Spurrell 1813-1889, geiriadurwr ac argraffydd. Darlun eithriadol o brin.

Gwna hyn gyfanswm o tua 12,000 - 15,000 o gopïau.

Yn 1919 cyhoeddwyd argraffiad cyntaf *Spurrell's Pocket Welsh Dictionary*, eto o dan olygyddiaeth J. Bodvan Anwyl, mewn rhediad o 5,000 o gopïau. Ail argraffwyd 1000 o gopïau yn 1929, cyn cyhoeddi ymhen blwyddyn drydydd argraffiad gyda nifer o ychwanegiadau o dan y teitl newydd *Spurrell's School Dictionary*. Ymddangosodd pedwerydd argraffiad yn 1937.

\* \* \* \*

DYLID nodi na fu Gwasg Spurrell yn eiddo i'r teulu ar ôl marwolaeth Walter Spurrell yn 1934. Prynwyd y busnes gan newyddiadurwr o Landeilo, y Capt. J. W. Nicholas, ac ar ôl ei farw'n ŵr ifanc yn 1943, bu ei deulu'n berchen ar y wasg hyd at 1957.

Cadwyd yr enw Spurrell ar gynnyrch y wasg, ond dirywio mewn dylanwad oedd ei thynged yn ystod y cyfnod hwn. Parhawyd gyda'r gwaith o gyhoeddi geiriaduron Spurrell/Bodfan, ond ni welwyd yr un argraffiad newydd ar ôl 1937; yn hytrach defnyddiwyd teip cadw i ddarparu copïau digonol i ateb galw'r farchnad, a chadwyd 1937 fel dyddiad ar y copïau hyn.

Amcangyfrifir y gellir ychwanegu 10,000 at werthiant y tri geiriadur yn ystod y cyfnod hwn. Gwna hyn gyfanswm o dros

55,000 i werthiant geiriaduron Spurrell/Bodfan rhwng 1914 a 1957.

Yn 1957 gwerthwyd Gwasg Spurrell gan deulu Capt. J. W. Nicholas i H. G. Walters, newyddiadurwr ac argraffydd yn Arberth, yn yr hen sir Benfro. Ymhen fawr o amser gwaredwyd yr holl offer argraffu mewn arwerthiant gyhoeddus, ond cadwyd swyddfa yng Nghaerfyrddin i gasglu mân waith argraffu hyd at 1963.

Defnyddiwyd yr argraffeb 'Caerfyrddin: Argraffwyd gan W. Spurrell a'i Fab' ar yr eitemau hyn hyd at 1969, er i'r gwaith gael ei gyflawni ar beiriannau mewn sir arall! Ni welai Walters lawer o ddyfodol i gyhoeddi geiriadur Cymraeg, a gwerthwyd hawlfraint geiriaduron Spurrell i Wm Collins & Co., Llundain a Glasgow, am bris o £500.

Ar ôl sicrhau'r hawlfraint aeth Collins ati'n fuan i baratoi argraffiad newydd o'r geiriadur. Y nod oedd darparu cyfrol a fyddai'n llai o ran maint na phrif eiriaduron Bodfan, ond yn fwy cynhwysfawr na'r geiriadur ysgolion poblogaidd.

Ymddiriedwyd y gwaith golygu i ddwylo diogel y diweddar Athro Henry Lewis, Coleg y Brifysgol, Abertawe. Er ei ymddangosiad cyntaf yn 1960 bu'r *Collins-Spurrell Welsh Dictionary* yn llwyddiant ysgubol, ac mae ei werthiant yn parhau yn uchel, er bod angen ei ddiwygio bellach.

Gwerthwyd 19,000 o gopïau o fewn blwyddyn i'r dyddiad cyhoeddi, ac erbyn Rhagfyr 1978 roedd cyfanswm y copïau a werthwyd wedi cyrraedd 240,000.

Er 1978, ail argraffwyd y geiriadur 14 o weithiau, a bu Cwmni Collins yn barod iawn i ddatgelu ei werthiant blynyddol ers y dyddiad hwn:

1979 — 10,487	1985 — 7,063
1980 — 7,734	1986 — 7,077
1981 — 7,456	1987 — 9,730
1982 — 5,832	1988 — 11,189
1983 — 6,987	1989 — 10,420
1984 — 7,276	*1990 — 5,792

\*Ionawr—Mehefin

Cyfanswm:

Ionawr 1979 — Mehefin 1990 = 96,973

Mae'r ffigurau er 1960 yn dangos gwerthiant o 337,000 i eiriadur Cymraeg mewn cyfnod o ddeng mlynedd ar hugain.

Mae'n anodd meddwl am unrhyw deit Cymraeg arall sy'n dod yn agos at gystadlu â'r gwerthiant hwn ar wahân efallai i'r Beibl, cyfansoddiadau'r Eisteddfod Genedlaethol, neu ambell lyfr emynau. Gwyddom, er enghraifft, fod *Hymnau yr Eglwys*, a olygwyd gan Elis Wyn o Wyrfaï, ac a argraffwyd gan Spurrell, wedi gwerthu 100,000 o gopïau rhwng 1895 a 1927.

## RHODDION - a mawr ddiolch

- £10.00: B. Hall, Caerdydd; Siop Lyfrau'r Hen Bost.
- £7.00: A. Evens, Cricieth; J. T. Jenkins, Llangeler; Rhys ap Rhisiart, Garndolbenmaen; W. J. Rees, Tyddewi; M. ac O. Griffith, Llansadwrn.
- £5.00: A. D. Davies, Acrefair; J. Owen, Conwy.
- £4.00: R. Evans, Chester.
- £2.00: J. Griffith, Caernarfon; R. R. Evans, Dolgellau; A. Jones, Llandysul; N. Williams, Rhostryfan; G. Hughes, Arthog; H. E. Jones, Rhoshirwaun; I. Williams, Llangefni; M. Williams, Pontyberem; W. B. Jones, Abererch; I. Jones, Wenfo; B. Jones, Y Groeslon; G. T. Hughes, Tregynnon; A. E. Griffith, Chwilog; C. Hogg, Yr Wyddgrug; H. Roberts, Pwllheli; D. Hughes, Llandrillo yn Rhos; T. Llew Jones, Pontgarreg; O. Llywelyn, Llanrug; M. Jones, Croesoswallt; Di-enw, Casnewydd; O. Jones, Mynytho; G. Pennant, Porthmadog; D. E. Davies, Caerdydd; K. Evans, Brynman; H. Jones, Rhandirmwyn; C. Jones, Llanrhaeadr DC; R. Jones, Llanfairfechan; D. M. Jones, Tregarth; J. M. Jones, Swyddffynnon; A. Jones, Garndolbenmaen; G. E. Jones, Blaenau Ffestiniog; R. G. Williams, Pwllheli; J. Williams, Rhuthun; E. Evans, Manod; D. R. Herbert, Llanelli; W. Hughes, Talwrn; P. E. Owen, Abergele; T. Davies, Minffordd; M. Owen, Llanddodog.
- £1.00: I. O'Hannadih, Barcelona; D. Williams, Llangefni; G. Roberts, Llantrisant; A. Jones, Penisarwaun; A. Morgan, Llangefni.